BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED

DYDD MAWRTH, 14 MAI 2024

PRESENNOL (Yn y Siambr) J. Jones (Cadeirydd)

Aelodau'r Bwrdd (Yn y Siambr):
M. Evans – Cynrychiolydd Gweithwyr sy'n Aelodau;
T. Bowler – Cynrychiolydd o'r Undeb
Y Cynghorydd A. Lenny – Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau;

Aelod o'r Bwrdd (Yn Rhithwir):
R. Edwards – Cynrychiolydd Gweithwyr sy'n Aelodau

Yn bresennol fel sylwedydd (Yn Rhithwir):
Y Cynghorydd E. Williams –Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed

Hefyd yn bresennol (Yn Rhithwir):
A. Brown – Ymgynghorydd Annibynnol

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn
J. Williams, Cyfrifydd Cynorthwyol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 2.00 - 3.50 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Wyn Thomas (Cynrychiolydd Gweithwyr sy'n Aelodau) a Mr M. Rogers (Cynrychiolydd Aelodau Pensiwn).

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

3. COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A GYNHALIWYD AR 22 IONAWR 2024

CYTUNWYD bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

4. CYFARFOD PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED 27 MAWRTH 2024

4.1. ADRODDIAD BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED - 22 IONAWR 2024

Cafodd y Bwrdd adroddiad gan y Cadeirydd Annibynnol, oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfod y Bwrdd Pensiwn a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024 lle trafodwyd yr eitemau canlynol:

- Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol
- Monitro'r Gyllideb
- Diweddariad Gweinyddu Pensiynau
- Y Gofrestr Risg
- Diweddariad Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Adroddiad Ymgysylltu Robeco
- Perfformiad Buddsoddi

Croesawodd y Bwrdd Pensiwn fod adroddiad y Cadeirydd yn cael ei gyflwyno, a fyddai'n cael sylw ar holl agendau'r Bwrdd Pensiwn yn y dyfodol.

CYTUNWYD nodi Adroddiad Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed, 22 Ionawr 2024.

4.2. MONITRO'R GYLLIDEB - 1 EBRILL 2023 - 31 RHAGFYR 2023

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf am y cyfnod 1 Ebrill 2023 - 31 Rhagfyr 2023. Cafodd y Pwyllgor wybod am danwariant o'i gymharu â chyllideb o £1.8m.

O ran cwestiwn ar gost Cyfnewid a chyfandaliadau o £17.8m, sy'n uwch na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer, dywedwyd wrth y Bwrdd fod y Gyllideb, a osodwyd ym mis Ionawr 2023, yn seiliedig ar amcangyfrif ar lefel aelodau'r cynllun a fyddai'n ymddeol yn ystod 2023-2024.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

4.3. CYLLIDEB CRONFA BEWNSIWN DYFED 2024-2025

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2024-25 a nododd fod cyllideb gwariant o £133.6m a chyllideb incwm o £133.6m wedi'u gosod, gan arwain i gyllideb net sero a rhoi hyblygrwydd i'r Gronfa ddefnyddio incwm buddsoddi ar sail gofynion cyllidebol.

O ran lefelau gwariant, nododd y Pwyllgor fod y buddion sydd i'w talu wedi cael eu hamcangyfrif i fod yn £118m a oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnydd o 6.7% yn y pensiynau, ar sail Mynegai Prisiau Defnyddiwr mis Medi 2023, ynghyd â chynnydd o 1.5% mewn pensiynwyr ac aelodau gohiriedig. Yn ogystal,

roedd cynnydd yn y gyllideb hefyd wedi'i ddyrannu ar gyfer buddion ymddeoliad ar ffurf cyfandaliadau a thaliadau i ymadawyr .

Amcangyfrifwyd bod treuliau rheoli yn £11.9m, ac o blith hwn roedd £9.4m wedi cael ei glustnodi ar gyfer ffioedd rheolwyr buddsoddi.

Nodwyd yr amcangyfrifwyd bod cyfraniadau'n £104.5m gan gynnwys cyfraniadau cyflogwyr o £76.1m a chyfraniadau gweithwyr o £28.4m. Newidiwyd cyfraddau cyfraniadau i gyflogwyr er mwyn adlewyrchu canlyniadau prisiad tair blynedd 2022. Roedd 4% ychwanegol hefyd wedi cael eu cynnwys mewn dyfarniadau cyflog am y flwyddyn.

Nodwyd ymhellach yr amcangyfrifwyd mai'r incwm ar fuddsoddiadau oedd £25.7m i gynnal cyllideb niwtral yn ariannol felly nid oedd y gronfa'n cadw arian dros ben y gellid ei fuddsoddi.

Cyfeiriwyd at yr effaith y byddai trosglwyddo arian i Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn ei chael ar lefel ffioedd rheolwyr buddsoddi sy'n daladwy. Dywedwyd, wrth i arian gael ei drosglwyddo, y byddai ffioedd rheolwyr sy'n daladwy i Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn cynyddu ac y byddai'r ffioedd sy'n daladwy i reolwyr Cronfeydd buddsoddi eraill yn lleihau.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

4.4. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31 RHAGFYR 2023

Bu'r Bwrdd yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa arian parod mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Rhagfyr 2023, gyda £15.4m yn cael ei gadw gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar ran y Gronfa er mwyn bodloni gofynion llif arian parod i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

Cadarnhawyd y byddai unrhyw log a gronnwyd ar falansau arian parod yn cael ei gadw o fewn y Gronfa.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

4.5. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Cafodd y Bwrdd adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Weinyddu Pensiynau.

Rhoddodd y Rheolwr Pensiynau y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau sy'n cynnwys materion rheoleiddio, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig, y Cynllun Dilyniant Busnes a llif gwaith.

Cyfeiriodd y Rheolwr Pensiynau at eitem 1d yn yr adroddiad ar yr Adolygiad Barnwrol, ym mis Chwefror 2024, ar effaith dyfarniad McCloud

ar y broses o reoli costau. Dywedodd gan nad oedd yr adolygiad wedi cael ei wrthod, y byddai costau McCloud bellach yn cael eu hystyried yn gost aelodau'r cynllun.

Cyfeiriodd y Rheolwr Pensiynau hefyd at nifer y cyflogwyr sy'n defnyddio iConnect, sydd dros 90%, a dywedodd fod yr awdurdod yn gweithio gyda'r cyflogwyr sy'n weddill i gynorthwyo gyda'r broses bontio.

O ran cyflwyno'r Dangosfwrdd Pensiynau ym mis Hydref 2025, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y cyfnod cyflwyno o 1 flwyddyn sydd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth o fis Medi 2024. Dywedwyd y byddai'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn rhoi arweiniad ynghylch hyn 3 mis cyn mis Medi, ac y byddai'r Bwrdd yn cael gwybod am yr arweiniad hwnnw.

CYTUNWYD bod yr Adroddiad Gweinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.

4.6. ADRODDIAD TORRI AMODAU

Cafodd y Bwrdd yr Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd bod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Bwrdd, cyfeiriwyd at Gyflogwr a oedd wedi methu â thalu cyfraniadau yn rheolaidd yn ôl yr angen yn y Gronfa, ac amcangyfrifir bod £7,230.56 yn ddyledus. Rhoddwyd gwybod am y toriad hwnnw i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ac mae'r Cyflogwr bellach wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Fodd bynnag, ar ôl cyrraedd cytundeb gyda gweinyddwyr y cwmni, roedd y cyfraniadau hynny wedi'u talu i'r gronfa ar 29 Chwefror 2024.

CYTUNWYD bod yr Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.

4.7. COFRESTRE RISG

Cafodd y Bwrdd adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gofrestr Risg.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod y Gofrestr Risg yn ddogfen waith sy'n tynnu sylw at yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd bod y gofrestr yn cynnwys manylion yr holl risgiau a nodwyd; asesiad o'r effaith bosibl, y tebygolrwydd a'r statws risg; y mesurau rheoli risg sydd ar waith; y swyddog cyfrifol a'r dyddiad targed (os yw'n berthnasol) sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod risgiau wedi'u nodi a'u hasesu. Dywedwyd nad oedd unrhyw newidiadau ers cyfarfod blaenorol y pwyllgor.

Nododd y Bwrdd yn dilyn gwaith sylweddol a wnaed wrth adolygu'r gofrestr, fod risg newydd wedi'i ychwanegu gan fod risg G8 – Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.

Nododd ymhellach fod risgiau bellach wedi'u categoreiddio'n dri is-bennawd newydd o Lywodraethu a Rheoleiddio (8 risg), Cyllid a Buddsoddiadau (13 risg) a Gweithredol (16 risg) a fyddai'n cael eu hadolygu yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Pensiwn Mehefin, Medi a Thachwedd yn y drefn honno.

Croesawodd y Bwrdd yr adolygiad newydd â ffocws a mynegwyd barn pe bai unrhyw risgiau'n cael eu nodi o dan y penawdau uchod, ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu tynnu at sylw'r Bwrdd yn y cyfarfod cynharaf ac nid ydynt yn cael eu gohirio tan yr adolygiad nesaf a drefnwyd.

CYTUNWYD bod adroddiad y gofrestr risg yn cael ei nodi.

4.8. POLISI LLYWODRAETHU A DATGANIAD CYDYMFFURFIO

Nododd y Bwrdd fod Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfiaeth wedi'u diweddaru i Gronfa Bensiwn Dyfed wedi'u datblygu yn dilyn adolygiad diweddar a oedd yn nodi cydymffurfiaeth y Gronfa â'r egwyddorion arfer gorau mewn perthynas â strwythur, cynrychiolaeth, dethol, pleidleisio, hyfforddi, cyfarfodydd, mynediad, cwmpas a chyhoeddusrwydd.

Nodwyd bod y Polisi yn manylu ar drefniadau mewn perthynas â'r canlynol:

- Llywodraethu'r Gronfa
- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiwn
- Dirprwyo i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol
- Cyfarfodydd y Pwyllgor
- Y Cyfarfod Ymgynghorol Blynyddol
- Y Bwrdd Pensiwn

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â strwythur aelodaeth Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed yn unig sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin ac felly ddim yn cydymffurfio'n llawn ag arfer gorau, dywedwyd wrth y Bwrdd fod y strwythur yn dderbyniol ond byddai'n cael ei adolygu yn y flwyddyn i ddod.

CYTUNWYD bod y Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiaeth wedi'u diweddaru yn cael eu nodi.

4.9. DATGANIAD STRATEGAETH FUDDSODDI

Nododd y Bwrdd y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed oedd yn adlewyrchu'r Adolygiad Diwygiedig o'r Dyraniad Asedau Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 22 Medi 2023 a argymhellodd ddyraniad o 5% i Gredyd Preifat a gyllidir o'r Portffolio Ecwitis, fel y nodir yn yr adroddiad.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Nododd hefyd fod y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi yn ddogfen llywodraethu bwysig i'r Gronfa sy'n nodi ei strategaeth fuddsoddi bresennol, yn rhoi tryloywder o ran sut y mae buddsoddiadau'r Gronfa'n cael eu rheoli, yn gweithredu fel cofrestr risg lefel uchel, a'i fod wedi'i ddylunio i roi gwybodaeth i'r holl randdeiliaid.

CYTUNWYD nodi'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

4.10. CYNLLUN BUSNES 2024-2025

Cafodd y Bwrdd Gynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer cyfnod 2024-2025 i'w ystyried, a oedd â'r diben canlynol:

- Darparu gwybodaeth am y Gronfa a sut y cafodd ei chynnal.
- Esbonio'r cefndir a strwythur llywodraethu y Gronfa.
- Amlinellu prif gyfrifoldebau'r Gronfa.
- Cyflwyno dogfennau allweddol y Gronfa.
- Tynnu sylw at strategaeth fuddsoddi'r Gronfa gan gynnwys dyrannu asedau strategol.
- Darparu ystadegau allweddol ar gyfer y Gronfa.
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion busnes y Gronfa dros y flwyddyn nesaf.

CYTUNWYD bod Cynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer cyfnod 2024-25 yn cael ei nodi.

4.11. CYNLLUN HYFFORDDI 2023-2024 A 2024-2025

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Hyfforddi 2023/24 ar gyfer aelodau a swyddogion Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn manylu ar amserlen cyfarfodydd y pwyllgor, a digwyddiadau hyfforddi ynghyd â chynllun arfaethedig 2024-2025.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Cynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

4.12. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2024-2027

Cafodd y Bwrdd Gynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar gyfer y cyfnod 2024-2027, a luniwyd yn unol ag Adran 6 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau, gan fanylu ar flaenoriaethau a meysydd ffocws y Gronfa dros gyfnod y cynllun gyda'r diben o:

- Egluro cefndir a strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru dros y tair blynedd nesaf.
- Cyflwyno polisïau a chynlluniau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes perthnasol.
- Crynhoi Buddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Nodwyd, pe bai'r Cynllun yn cael ei gymeradwyo gan bob partner, y byddai' n cael ei fonitro'n gyson a'i adolygu'n ffurfiol ac y byddent yn cytuno arno bob blwyddyn.

CYTUNWYD nodi Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru 2024-2027.

4.13. DIWEDDARIAD CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn darparu manylion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024, a oedd yn cynnwys:

- Llywodraethu
- Gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu Is-gronfeydd
- Gwasanaethau gweithredwyr
- Buddsoddiadau ac Adrodd
- Cyfathrebu a Hyfforddiant
- Adnoddau, Cyllideb a Ffioedd
- Cynllun Hyfforddi

Roedd yr adroddiad diweddaru hefyd yn cyfeirio at gynllun hyfforddi PPC, adroddiad y Gweithredwr, perfformiad buddsoddiadau ar gyfer Ch4 ynghyd ag adroddiad gan GCM Grosvenor ar fuddsoddiadau seilwaith.

CYTUNWYD bod y newyddion diweddaraf ynghylch Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu nodi.

4.14. DIWEDDARIAD BUDDSODDI CYFRIFOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - 31 RHAGFYR 2023

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad diweddaru Rhagfyr 2023 am Fuddsoddiadau Cyfrifol PPC oedd yn manylu ar y gweithgarwch Buddsoddiadau Cyfrifol diweddar ynghyd â gwybodaeth am yr Is-gronfeydd canlynol y mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi buddsoddi ynddynt:

- Twf Byd-eang
- Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
- Credyd Byd-eang

Yn ogystal â'r uchod, roedd y diweddariad hefyd yn rhoi Crynodeb Stiwardiaeth ynghyd â'r atodiadau perthnasol rhif 1-4 yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddaru.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

4.15. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR PENSIWN 27 MAWRTH 2024

CYTUNWYD bod cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2024.

5. MONITRO CYLLIDEB Y BWRDD PENSIWN 1 EBRILL 2023 - 31 MAWRTH 2024

Cafodd y Bwrdd adroddiad Monitro Cyllideb y Bwrdd Pensiwn fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024. Cyfanswm y gwariant gwirioneddol oedd £21.2k. Y gwariant a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £3k o danwariant o gymharu â'r gyllideb.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

6. CYNLLUN GWAITH Y BWRDD PENSIWN 2024

Bu'r Bwrdd yn ystyried Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2024 a oedd yn amlinellu gwaith arfaethedig y Bwrdd Pensiwn a'r eitemau i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod.

CYTUNWYD bod Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2024 yn cael ei nodi.

7. BUDDSODDIAD CRONFA BENSIWN DYFED O FEWN GRWP CWMNÏAU BUTE

Cafodd y Bwrdd lythyr a gyflwynwyd gan Gynrychiolydd Cyflogwyr Cyngor Sir Caerfyrddin ar y Bwrdd, a oedd yn gofyn i'r Bwrdd ystyried y camau gweithredu canlynol a argymhellir mewn perthynas â buddsoddiad Cronfa Bensiwn Dyfed o fewn Grŵp Cwmnïau Bute:

a) Archwilio a oes achos neu gyfle i gael rhyddhad ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed o'r trefniant ar gyfer ariannu Bute ac o unrhyw ymrwymiad parhaus i gynnig Cronfeydd Pensiwn Dyfed i Grŵp Bute.

b) I bob un o'r partneriaid o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru drafod y pryderon perthnasol.

c) Archwilio a oes achos neu gyfle i gael rhyddhad ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r trefniant ariannu sy'n ymwneud â Grŵp Bute.

d) Archwilio a allai unrhyw ryddhad o'r fath olygu adennill y swm a roddwyd hyd yma neu unrhyw ran ohono.

e) Archwilio a allai unrhyw ryddhad o'r fath olygu atal cydbwysedd y cronfeydd sy'n berthnasol i gyfanswm y buddsoddiad a ragwelwyd.

f) Archwilio ac ystyried a yw Cronfa Bensiwn Dyfed neu Bartneriaeth Pensiwn Cymru, yng nghyd-destun y berthynas gyllido sy'n bodoli, yn gallu annog a chynorthwyo Green Generation Energy Networks Cymru (GGENC) tuag at gyfeiriad mwy priodol neu hwylus.

g) Cysylltu â Copenhagen Infrastructure Partners (CIP), sy'n ymddangos fel y prif fuddsoddwr yng Ngrŵp Bute, ynghylch y pryderon sy'n bodoli o ran cyfeiriad a dull GGENC, ac i archwilio sut mae'r materion hynny'n effeithio ar reolaeth a rhwymedigaethau gweithredol CIP, yn unol â'r Safonau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

h) Archwilio gyda CIP a fyddai CIP yn ystyried bod achos neu gyfle i CIP neu unrhyw barti arall gael rhyddhad o drefniadau cyllido sy'n ymwneud â Grŵp Bute.

i) Archwilio gyda CIP a fyddai CIP, fel y prif ariannwr, ac fel sefydliad o Ddenmarc, gan ystyried y deellir mai'r polisi cenedlaethol yn Nenmarc yw gosod pob llinell 132KV o dan y ddaear, yn gallu annog a chynorthwyo GGENC tuag at gyfeiriad mwy priodol neu hwylus.

Cyfeiriodd y Cynrychiolydd Cyflogwyr yn fanwl at ei lythyr sylwadau, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, a oedd yn amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno o ran prosiectau Tywi-Wysg a Thywi/Teifi GGENC ac yn arwain at y camau gweithredu a argymhellir uchod. Yn unol â hynny, gofynnodd i'r Bwrdd ystyried cyflwyno'r penderfyniad canlynol i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed mewn perthynas â'r uchod.

“Mae Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed yn cytuno i ofyn i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed i:

- Archwilio, trafod ac ystyried a oes achos neu gyfle i Gronfa Bensiwn Dyfed neu PPC, ar wahân neu ar y cyd â'i phartneriaid ariannu, gael rhyddhad o unrhyw drefniant ar gyfer ariannu un neu fwy o'r cwmnïau o fewn Grŵp Bute ac archwilio a allai unrhyw ryddhad o'r fath olygu adennill unrhyw swm a roddwyd hyd yma neu unrhyw ran ohono, neu a allai olygu dal arian yn ôl.

- Archwilio a yw Cronfa Bensiwn Dyfed, ac unrhyw un o'i phartneriaid ariannu, yng nghyd-destun unrhyw berthynas gyllido sy'n bodoli, yn gallu ymgysylltu â GGENC/Bute tuag at sicrhau cyfeiriad priodol a hwylus, megis gwerthusiad llawn a phriodol o geblau tanddaearol trwy aredig ar gyfer ceblau.

- Gofyn i'r cwmni cyfreithiol Burgess Salmon LLP a Grŵp Bute egluro a yw Burgess Salmon wedi cynorthwyo un neu fwy o'r cwmnïau o fewn Grŵp Bute ar unrhyw adeg.

- Dechrau trafodaeth gyda phob un o'r partneriaid cyllido a chyda Grŵp Bute ac Ofgem sy'n berthnasol i faterion i'w harchwilio yn unol â'r penderfyniad hwn.”

CYTUNWYD bod y penderfyniad uchod yn cael ei gymeradwyo a'i gyfeirio at Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed i'w ystyried.

8. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

9. ADRODDIAD ARGYMHELLION O RAN CAFFAEL GWEITHREDWR PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad ar benodi cynigydd 3 fel y cynigydd a ffefrir gan y Bartneriaeth Bensiwn ar gyfer Contract Gweithredwr newydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

CYTUNWYD nodi Adroddiad Argymhellion o ran Caffael Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru.

10. ADRODDIAD YMGYSYLLTU ROBECO 1 GORFFENNAF 2023 - 30 MEDI 2023

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad Ymgysylltu Robeco am y cyfnod 1 Gorffennaf 2023 – 31 Medi 2023.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

11. ADRODDIAD YMGYSYLLTU ROBECO 1 HYDREF 2023 - 31 RHAGFYR 2023

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad Ymgysylltu Robeco am y cyfnod 1 Hydref 2023 - 31 Rhagfyr 2023.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

12. ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG HYD AR 31 RHAGFYR 2023

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fenthyca stoc yn ystod chwarter 4, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2023.

Cytunwyd bod yr Adolygiad Benthyca Gwarannau Byd-eang yn cael ei nodi, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2023.

13. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31 RHAGFYR 2023

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Bu'r Bwrdd yn ystyried Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a oedd yn rhoi manylion mewn perthynas â pherfformiad y Rheolwr Buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2023. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cefndir y farchnad fyd-eang a materion i'r bwrdd pensiwn eu hystyried.

CYTUNWYD bod yr Adroddiad Perfformiad a Risg gan yr Ymgynghorydd Annibynnol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2023 yn cael ei nodi.

14. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31 RHAGFYR 2023

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad Perfformiad Northern Trust a oedd yn nodi perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2023. Roedd yr adroddiad yn darparu dadansoddiad perfformiad ar lefel cronfa gyfan a chan y Rheolwr Buddsoddi am y cyfnodau hyd at y cychwyn.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

.

CYTUNWYD bod Adroddiad Perfformiad Northern Trust yn cael ei nodi, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2023.

15. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 31 RHAGFYR 2023

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y Rheolwr Buddsoddi fel yr oedd ar 31 Rhagfyr, 2023.

CYTUNWYD bod Adroddiadau'r Rheolwr Buddsoddi yn cael eu nodi, fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr 2023.

_____ _____

CHAIR **DATE**